

RHAGLEN GRANT CYFALAF Y CYNNIG GOFAL PLANT

CYNLLUN GRANTIAU BACH

Gweinyddiaeth

Bydd y Cynllun Grantiau Bach (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Grant) yn cael ei reoli gan yr Awdurdod Lleol, gan ddefnyddio'r systemau sydd ganddo eisoes i weinyddu ffrydiau ariannu gofal plant a blynyddoedd cynnar eraill.

Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau, wrth ystyried ceisiadau, ei fod yn ymgynghori â chynrychiolwyr y sefydliadau ymbarél gofal plant.

Mater i bob Awdurdod Lleol fydd penderfynu pa mor aml y mae'n derbyn ceisiadau, ond dylai sicrhau bod y 'cylchoedd ymgeisio' hyn yn ddigon aml i ganiatáu i ddarparwyr gofal plant sicrhau'r cyllid sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl.

Disgwylir i'r Awdurdod Lleol:

- Gadw cofnod o'r holl geisiadau y mae'n eu derbyn;
- Cofnodi pryd y cafodd y cais ei ystyried, pwy oedd yn bresennol, ac a oedd y cyllid wedi'i gymeradwyo ai peidio;
- Os caiff cyllid ei gymeradwyo, dylid cofnodi'r swm mewn llythyr cynnig grant ffurfiol i'r ymgeisydd sy'n manylu ar y telerau ac amodau* sydd ynghlwm wrth y cynnig a rhaid i'r ymgeisydd lofnodi'r telerau ac amodau hynny;
- Os na ddyfernir cyllid, rhaid hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig; a
- Rhaid cofnodi manylion pryd y telir yr arian a pha wiriadau a wnaed i sicrhau bod y gwaith wedi digwydd.

Bydd angen cyflwyno'r wybodaeth a nodir uchod i dîm Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant o fewn Llywodraeth Cymru yn flynyddol fel rhan o'r hawliad 4^{ydd} chwarter terfynol ym mis Ebrill / Mai, er y dylai crynodeb byr gael ei gynnwys yn y ffurflen hawlio chwarterol ac adroddiad cynnydd.

* Gweler y manylion isod ynghylch telerau ac amodau'r grant.

Cymhwysedd

Wrth ystyried cais, bydd angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod yr ymgeisydd yn gymwys ac yn bodloni'r meini prawf a nodir isod.

Mae pob lleoliad sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) sy'n cynnig lleoedd Gofal Plant i blant 3 a 4 oed neu sy'n bwriadu cynnig lleoedd yn gymwys i wneud cais. Mae hyn yn cynnwys gwarchodwyr plant, darparwyr sector preifat a gwirfoddol, a lleoliadau a gynhelir sy'n cynnig gofal dydd, gofal cofleidiol, cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol, ayb. Gellir hefyd ystyried ceisiadau gan ddarparwyr gofal plant sydd yn y broses o wneud

cais i gofrestru; bydd angen i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon bod y darparwr yn y broses o wneud y cais hwnnw i CIW.

Rhaid i'r lleoliad gofal plant fod wedi'i leoli yng Nghymru; ni ellir ystyried ceisiadau gan leoliadau gofal plant yn Lloegr hyd yn oed os oes plant o Gymru yn mynychu.

Dylid gwneud pob cais i'r Awdurdod Lleol o ran cyfeiriad y lleoliad fel ag y mae wedi'i gofrestru â CIW; ni all darparwr wneud cais i fwy nag un Awdurdod Lleol er y gall fod yn cymryd plant o fwy nag un ardal Awdurdod Lleol. Felly, er enghraifft, os yw cyfeiriad lleoliad cofrestredig yn Abertawe, dim ond i Gyngor Abertawe y gellir gwneud cais, er y gallai fod yn cymryd plant o Gastell-nedd Port Talbot neu Sir Gaerfyrddin. Os oes gan ddarparwr fwy nag un lleoliad cofrestredig, yna mae'r Awdurdod ymgeisiol yn seiliedig ar y cyfeiriad ar gyfer pob un, a'r terfyn ariannol sy'n berthnasol i bob un.

Wrth wneud cais rhaid i ddarparwr:

- Allu dangos bod galw heb ei fodloni am ofal plant;
- Fod wedi'i gofrestru gyda CIW neu yn achos darparwyr newydd, rhoi ymrwymiad ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gyda CIW ar y cyfle cyntaf. Os nad yw lleoliad wedi'i gofrestru o fewn 6 mis ar ôl i'r grant gael ei dynnu i lawr, yna gall yr Awdurdod Lleol gymryd camau i adennill yr arian;
- Fod wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Lleol i ddarparu lleoedd Cynnig Gofal Plant neu roi ymrwymiad ysgrifenedig y bydd yn cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol;
- Gallu dangos sicrwydd deiliadaeth am o leiaf 5 mlynedd. Os yw nifer y blynyddoedd sy'n weddill o brydles yn llai na 5 mlynedd, gellir ystyried ceisiadau lle mae'r darparwr yn gallu dangos bod ymrwymiad neu fwriad clir gan y landlord i adnewyddu'r brydles;
- Bod yn barod i ymrwymo i gynnis lleoedd Cynnig Gofal Plant am o leiaf 5 mlynedd o'r dyddiad y gwneir y taliad grant terfynol a chydabod os yw'n rhoi'r gorau i ddarparu lleoedd Cynnig Gofal Plant neu'n derbyn plant sy'n talu ffi dros y rhai sy'n derbyn y Cynnig, yna bydd yn ofynnol iddo ad-dalu'r cyfan neu ran o'r arian grant a dalwyd. Bydd y swm sy'n ad-daladwy yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau;
- Cydnabod y buddsoddiad a gafwyd mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo a roddwyd i rieni; a

Gall yr Awdurdod Lleol hefyd ddymuno ystyried y canlynol, yn enwedig os oes mwy o alw am y Grant na'r swm sydd ar gael:

- bod y darparwr yn aelod o sefydliad ymbarél gofal plant fel NDNA, Mudiad Meithrin, Cymru'r Blynyddoedd Cynnar, Clybiau Plant Cymru, PACEY Cymru, ayb. Fodd bynnag, er ei bod yn syniad da cofrestru gydag un o'r sefydliadau hyn, ni ddylai fod yn rhan o'r meini prawf cymhwyster;
- bod y lleoliad yn gallu darparu lleoedd gofal plant ychwanegol o ganlyniad i'r buddsoddiad neu bydd ansawdd y lleoedd gofal plant yn gwella;
- y gellir cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yn ystod y tymor a'r gwyliau ysgol er mwyn darparu'r 48 wythnos lawn y mae gan y plentyn hawl iddynt; a
- bod gan y lleoliad ddyfarniad sicrhau ansawdd dilys.

Beth y gellir ei ariannu

Gellir dyfarnu arian grant i leoliadau i'w galluogi i gynyddu nifer y lleoedd y gallant eu cynnig, gwella ansawdd y cyfleusterau y maent yn eu cynnig, neu ostwng ystod oedran eu darpariaeth i gynnwys plant 3 a 4 oed. Byddem yn disgwyl i'r uchafswm sydd ar gael i unrhyw un lleoliad mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol fod fel y nodir isod, fodd bynnag gall yr Awdurdod Lleol ddefnyddio ei ddyfarniad i gynnig yr uchafswm o £10,000 os oes amgylchiadau eithriadol.

Gwarchodwyr plant a'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar gyfer 8 neu lai	Hyd at £5,000
Darparwyr gofal plant wedi'u cofrestru ar gyfer 9 i 15 o leoedd	Hyd at £7,500
Darparwyr gofal plant wedi'u cofrestru ar gyfer 16+ o leoedd	Hyd at £10,000

Canllawiau ar gyfer ceisiadau grant gan ddarparwyr gofal plant (ac eithrio gwarchodwyr plant)

Gellir cynnig arian ar gyfer gwaith cyfalaf amrywiol sydd o bosibl ei angen, fel:

- Gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys paentio, gosod carpedi newydd, ayb;
- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, fel amnewid yr arwyneb chwarae awyr agored neu ddarparu canopi;
- Amnewid / atgyweirio gosodiadau a ffitiadau fel toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau, ayb;
- Newid hen offer / dodrefn / teganau a allai beri risg iechyd a diogelwch. Er enghraifft, ffrâm ddringo awyr agored sydd wedi rhydu, dodrefn wedi eu torri neu wedi'u gwisgo'n ddrwg, a allai achosi fflawiau; neu fwrdd newid sydd wedi cael llawer o ddefnydd, na ellir ei lanhau'n hylan;
- Offer TG ar yr amod y gellir dangos yn glir bod ei angen er mwyn darparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant, gallai hyn gynnwys gliniaduron, argraffwyr, ayb;
- Addasiadau i'r lleoliad i wella mynediad, ayb;
- Darparu offer / dodrefn pwrpasol a fydd yn galluogi darparwr i ddarparu ar gyfer plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Prynu offer a fydd yn galluogi'r lleoliad i gynnwys plant 3 a 4 oed; a
- Tuag at brynu bws mini a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gludo plant rhwng elfennau gofal plant ac addysg y Cynnig. Nid yw costau prydlesu yn gymwys i gael arian na chostau rhedeg fel yswiriant, petrol, gwasanaethu, ayb.

Mae'r arian grant ar gyfer pryniannau cyfalaf yn unig, yn y bôn rhywbeth sydd â gwerth ailwerthu neu sy'n gwella gwerth yr eiddo. Ni ellir ei ddefnyddio i ariannu:

- Prynu nwyddau traul, fel papur, deunyddiau glanhau, clytiau, ayb;

- Costau staff fel cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;
- Biliau cyfleustodau fel nwy, trydan, cyfraddau;
- Darparu WiFi;
- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeiladu, yswiriant atebolrwydd cyflogwr ayb.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr; os oes unrhyw amheuaeth a yw eitem yn gymwys ai peidio, cysylltwch â Sandra Owens yn Llywodraeth Cymru.

Canllawiau ar gyfer ceisiadau am grant gan warchodwyr plant

Gan fod gwarchodwyr plant yn gweithio ar safleoedd domestig, mae'r canllawiau ar gyfer ceisiadau am gyllid Cyfalaf yn wahanol. Fodd bynnag, gellir cynnig cyllid ar gyfer gwaith cyfalaf amrywiol sydd o bosibl ei angen, fel:

- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored lleoliad, fel amnewid yr arwyneb chwarae awyr agored neu ddarparu canopi;
- Newid hen offer / dodrefn / teganau a allai beri risg iechyd a diogelwch. Er enghraifft, ffrâm ddringo awyr agored sydd wedi rhydu, dodrefn wedi eu torri neu wedi'u gwisgo'n ddrwg, a allai achosi fflawiau; neu fwrdd newid sydd wedi cael llawer o ddefnydd, na ellir ei lanhau'n hylan;
- Offer TG ar yr amod y gellir dangos yn glir bod ei angen er mwyn darparu lleoedd y Cynnig Gofal Plant, gallai hyn gynnwys gliniaduron, argraffwyr, ayb;
- Addasiadau i'r lleoliad i wella mynediad, ayb;
- Darparu offer / dodrefn pwrpasol a fydd yn galluogi darparwr i ddarparu ar gyfer plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dylai gwarchodwyr plant ddangos tystiolaeth glir o angen a sut mae hyn o fudd i'r lleoliad gwarchod plant a'r plant yn eu gofal o ystyried eu bod yn gweithio mewn eiddo domestig.

Mae'r arian grant ar gyfer pryniannau cyfalaf yn unig, yn y bôn rhywbeth sydd â gwerth ailwerthu. Mewn lleoliad gwarchod plant, ni ellir ei ddefnyddio i ariannu:

- Prynu nwyddau traul, fel papur, deunyddiau glanhau, clytiau, ayb;
- Costau staff fel cyflogau, hyfforddiant, teithio a chynhaliaeth;
- Biliau cyfleustodau fel nwy, trydan, cyfraddau;
- Darparu WiFi;
- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeiladu, yswiriant atebolrwydd cyflogwr ayb.
- Gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys paentio, gosod carpedi newydd, ayb.
- Amnewid / atgyweirio gosodiadau a ffitiadau fel toiledau, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau, ayb;

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr; os oes unrhyw amheuaeth a yw eitem yn gymwys ai peidio, cysylltwch â Sandra Owens yn Llywodraeth Cymru.

Telerau ac Amodau

Bydd disgwyl i bob darparwr sy'n derbyn arian o'r Cynllun Grantiau Bach dderbyn y cynnig yn ffurfiol mewn ysgrifen (mae e-bost yn dderbyniol), rhaid iddynt hefyd lofnodi'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth y grant.

Dylai'r Awdurdod Lleol seilio'r telerau a'r amodau y mae'n eu defnyddio ar gyfer grantiau blynyddoedd cynnar eraill y mae'n eu gweinyddu, ond dylai gynnwys y cymalau ychwanegol canlynol:

- Mae'r arian yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a rhaid cydnabod hyn mewn unrhyw lenyddiaeth fel cylchlythyrau, a roddir i rieni, a dylid defnyddio'r brandio Cynnig Gofal Plant;
- Rhaid i'r darparwr hefyd hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant (gan ddefnyddio'r brandio priodol) trwy gyfryngau cymdeithasol, taflenni, a mathau eraill o hysbysebu;
- Wrth dderbyn y cynnig hwn o gyllid, mae'r ymgeisydd yn cytuno i ddarparu lleoedd Cynnig Gofal Plant am o leiaf 5 mlynedd o'r dyddiad y telir yr arian grant. Os bydd yr ymgeisydd yn methu â derbyn plant sy'n cael eu hariannu drwy'r Cynnig, yna bydd yn atebol i ad-dalu'r cyfan neu ran o'r arian a dalwyd. Ni fydd hyn yn berthnasol os gall yr ymgeisydd ddangos yn glir y byddai ef/hi yn croesawu plant o dan y Cynnig, ond nad oes neb yn manteisio arno;
- Rhaid gwario'r arian ar yr eitemau hynny y bernir eu bod yn gymwys i'w hariannu yn unig, os oes tystiolaeth bod unrhyw ran o'r cyllid wedi'i defnyddio ar gyfer eitemau anghymwys, yna bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ad-dalu'r swm hwnnw;
- Gall darparwr wneud cais am gyllid ar gyfer yr un lleoliad fwy nag unwaith mewn unrhyw flwyddyn ariannol, ar yr amod nad yw'r cyfanswm a ddyfernir i leoliad unigol yn fwy na £10,000 yn y flwyddyn honno.

Sylwer na fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio adennill cyllid gan yr Awdurdod Lleol mewn perthynas ag arian y mae wedi methu ei adfer oddi wrth drydydd parti, ar yr amod y gall ddangos ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i adennill y cyllid gan y darparwr.

DIWEDDARWYD EBRILL 2019